



Bwletin GwE



Rhannwch ein bwletin â thîm staff yr ysgol i gyd ac anogwch eich holl gyd-weithwyr i ymuno â'n [rhestr bostio](#).

Blwyddyn Newydd Dda



Gobeithio i chi gael Nadolig heddychlon a chael cyfle i fagu nerth newydd yn ystod y gwyliau.

Ddydd Llun daethom yn ôl i'r newyddion anochel y byddai rhaid i ysgolion gau tan 18 Ionawr yn y lle cyntaf. Mae hyn eto yn her i holl staff ysgolion, ac yn enwedig i arweinwyr ysgolion. Bydd staff GwE unwaith eto ar gael i'ch cefnogi chi yn ystod y cam nesaf hwn, a byddwn yn cysylltu â chi yn fuan i drafod sut orau i helpu.

Edrychwn ymlaen at gydweithio pellach wrth i ni eich cefnogi chi drwy'r heriau sydd o'n blaenau, gan wybod ein bod i gyd yn gwneud hyn er lles ein plant a'n pobl ifanc.

Diolch

STAFF ADDYSGU CYMRU SCHOOL STAFF



Cynnig Proffesiynol GwE

Dilynwch y [ddolen hon at Gynnig GwE](#) ar gyfer y flwyddyn 2020-2021.

Mae Cynnig GwE, sy'n cynnwys holl fanylion yr hyfforddiant datblygiad proffesiynol y mae GwE yn ei gynnis ar gyfer y flwyddyn nesaf, bellach yn fyw ar G6 [<https://g6.gwegogledd.cymru>].

Er mwyn cofrestru i fynychu'r hyfforddiant sydd wedi'i restru, bydd angen i holl staff yr ysgol greu cyfrif personol yn G6.

Mae modd gwneud hynny drwy ddilyn y [ddolen hon](#) a chlicio ar y botwm 'Cofrestrwch Nawr'. Gweler y cyfarwyddiadau [yma](#).

Cysylltu â GwE

Rydym yma i helpu! Rydym ar-lein ac wrth law i gefnogi ysgolion a llywodraethwyr. Cysylltwch â ni ar post@gwegogledd.cymru ac fe atebwn cyn gynted ag y bo modd.



IONAWR 2021	DYDDIAD	CYFRWNG
Cyfathrebu Cadarnhaol	07/01/2021	Cymraeg
Datblygu Deiliannau Effeithiol a Defnyddio'r Dilyniant Cymorth (Carfan 2 - Sesiwn 1)	12/01/2021	Saesneg
Datblygu Deiliannau Effeithiol a Defnyddio'r Dilyniant Cymorth (Carfan 3 - Sesiwn 1)	12/01/2021	Saesneg
Fforymau i Athrawon Saesneg	12/01/2021	Saesneg
Dysgu Carlam ym maes Llythrennedd i bob Athro/Athrawes a Chymhorthydd yn yr Ystafell Ddosbarth (unwaith y tymor)	12/01/2021	Dwyieithog
Delio gyda sefyllfaoedd anodd yn effeithiol (Carfan 2)	18/01/2021	Dwyieithog
Cyflwyno / ailgynnu leithoedd Rhyngwladol yn y cwricwlwm cynradd	18/01/2021	Saesneg
Cyfarfodydd Rhwydwaith Penaethiaid Saesneg	18/01/2021	Saesneg
ANG - CA2 Llythrennedd ar draws y Cwricwlwm ar gyfer ANG (Cyfrwng Saesneg)	19/01/2021	Saesneg
Rheoli Newid CiG (Creuddyn, D. Conwy, Glan Clwyd)	19/01/2021	Cymraeg
Rheoli Newid, CiG (Eirias, Aberconwy, Bryn Elan)	19/01/2021	Saesneg
ANG - Cyfnod Sylfaen, Llythrennedd ar draws y Cwricwlwm ar gyfer ANG (cyfrwng Saesneg)	19/01/2021	Saesneg
Rheoli Newid CiG (Alun, Hawarden, Flint, Pen Coch, Maes Hyfryd)	19/01/2021	Saesneg
Rheoli Newid CiG (Friars / Tryfan, Brynrefail, D. Ogwen)	19/01/2021	Cymraeg
Dysgu Carlam ym maes Llythrennedd i bob Athro/Athrawes a Chymhorthydd yn yr Ystafell Ddosbarth	19/01/2021	Dwyieithog
ANG - CA2, Rhifedd ar draws y Cwricwlwm ar gyfer ANG (cyfrwng Saesneg)	20/01/2021	Saesneg
Rheoli Newid CiG (Rhyl, Prestatyn, Tir Morfa)	20/01/2021	Saesneg
Rheoli Newid CiG (Caergybi, Bodedern, Syr Thomas Jones)	20/01/2021	Cymraeg
ANG - Cyfnod Sylfaen, Rhifedd ar draws y Cwricwlwm ar gyfer ANG (cyfrwng Saesneg)	20/01/2021	Saesneg
Rheoli Newid CiG (Bryn Alun, Clywedog, Rhosnesni)	20/01/2021	Saesneg
Rheoli Newid CiG (Emrys, John Bright, Dinbych, Plas Brondyffryn)	20/01/2021	Saesneg
Rheoli Newid CiG (Syr Hugh Owen, Dyffryn Nantlle)	20/01/2020	Cymraeg
ANG - CA2, Llythrennedd ar draws y Cwricwlwm i ANG (cyfrwng Cymraeg)	21/01/2021	Cymraeg
Rheoli Newid CiG (Tywyn, Bro Idris, Moelwyn, Berwyn, Ardudwy)	21/01/2021	Cymraeg
Rheoli Newid CiG (Glan y Mor, Botwnnog, Eifionydd, Hafod Lon)	21/01/2021	Cymraeg
Rheoli Newid CiG (St David's, Treffynnon, St Richard Gwyn)	21/01/2021	Saesneg
ANG - Cyfnod Sylfaen, Llythrennedd ar draws y Cwricwlwm i ANG (cyfrwng Cymraeg)	21/01/2021	Cymraeg
Rheoli Newid CiG (Brynhyfryd, Dinas Bran, Ceiriog)	21/01/2021	Cymraeg
Rheoli Newid CiG (Castell Alun, Cei Connah, Elfed / Argoed)	21/01/2021	Saesneg
Rheoli Newid CiG (Ruabon, Grango, Darland)	21/01/2021	Saesneg
ANG - CA2, Rhifedd ar draws y Cwricwlwm i ANG (cyfrwng Cymraeg)	22/01/2021	Cymraeg
ANG - Cyfnod Sylfaen, Rhifedd ar draws y Cwricwlwm i ANG (cyfrwng Cymraeg)	22/01/2021	Cymraeg
Datblygu Deiliannau Effeithiol a Defnyddio'r Dilyniant Cymorth (Carfan 4 - Sesiwn 1)	26/01/2021	Dwyieithog
ANG - CA3/4, Llythrennedd ar draws y Cwricwlwm ar gyfer ANG (cyfrwng Saesneg)	27/01/2021	Saesneg
ANG - CA3/4, Llythrennedd ar draws y Cwricwlwm ar gyfer ANG (cyfrwng Cymraeg)	27/01/2021	Cymraeg
ANG - CA3/4, Rhifedd ar draws y Cwricwlwm ar gyfer ANG (cyfrwng Cymraeg)	28/01/2021	Cymraeg
ANG - CA3/4, Rhifedd ar draws y Cwricwlwm ar gyfer ANG (cyfrwng Saesneg)	28/01/2021	Saesneg

Cyfleoedd a Rhaglenni Datblygu Proffesiynol GwE

Cyfle cyffrous i Gynorthwyrwyr Addysgu newydd!

Mae'r **Rhaglen Ymsefydlu Cynorthwyrwyr Addysgu** ar gyfer unigolion sydd newydd eu penodi i'r swydd. Cyflwynir y rhaglen genedlaethol hon ar lwyfan digidol. Bydd modd cwblhau'r hyfforddiant ar amser sydd yn gyfleus i'r cynorthwyrwyr ac i'w lleoliad. Am fwy o wybodaeth a manylion am sut i gofrestru, [cliciwch yma](#).

Newyddion a Gwybodaeth GwE

Adnoddau Dysgu Cyfunol

Cliciwch yma am fwy o wybodaeth:

Saesneg - [School Guide](#) | **Cymraeg** - [Gwybodaeth i ysgolion](#)

Mae tudalen wybodaeth i'ch Llywodraethwyr hefyd, cliciwch yma am fwy o wybodaeth:

Saesneg - [Governors Guidance](#) | **Cymraeg** - [Canllawiau Llywodraethwyr](#)

Prosiect Asesu Ffurfiannol / Shirley Clarke

Mae cyflwyniadau diwrnod hyfforddi 2 Athrawon Haen 3 y prosiect ar gael yng Nghanolfan Cefnogaeth GwE ac yn nosbarth Google y prosiect. Maent wedi'u trosleisio ac yn addas i'w defnyddio mewn unrhyw ysgol sy'n dymuno sbarduno neu ailgychwyn trafodaeth neu ymchwil i wahanol agweddau ar asesu ffurfiannol.

Mae yma gyfleoedd i ystyried asesu ffurfiannol yng nghyd-destun dysgu cyfunol a hefyd addysgeg yn ein paratodau at Gwricwlwm i Gymru.

Bydd gwahoddiad i athrawon Haen 3 ymuno mewn cyfarfodydd adolygu i rannu profiadau yn ystod y tymor yma. Rhennir dyddiadau yn fuan.

Mynediad i adnoddau Llesiant am ddim

Fel rhan o gynnig proffesiynol 'llesiant' gweler manylion pellach parthed sut i gael mynediad i drwyddedau ac adnoddau pellach:

1. Meddwl yn Wahanol ar gyfer dysgwyr difreintiedig
2. Mynediad i drwydded SEAL (*Social Emotional Aspects of Learning*)

[Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion.

Lle i Fyfyrio

Mae cyfle i Benaethiaid y rhanbarth wneud gwaith Un i Un efo Dr Coral Harper, neu Mike Armiger. Efallai y byddwch chi'n adnabod Coral o'i gwaith gydag Ysgolion sy'n Wybodys ynghylch Trawma, ac mae Mike wedi gweithio gydag ysgolion ledled y rhanbarth i gyflwyno'r 'Fframwaith Rheoleiddio'.

Dyma gyfle i chi drafod amryw byd o faterion yn gwbl gyfrinachol a heb gael eich beirniadu.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â catrinmeirionowen@gwegogledd.cymru

Yna, byddwn yn cysylltu â chi gyda manylion sesiwn wybodaeth.



Hyfforddiant Digidol Ar-lein

Rydym yn falch o gyhoeddi bod adnodd digidol newydd wedi ei lansio ar 'Canolfan Cefnogaeth GwE'. Mae cyfres o gyrsiau ar-lein ar gael, sydd wedi eu cynllunio ar gyfer ymarferwyr ar bob lefel o brofiad i wella eu defnydd a'u dealltwriaeth o Google Classroom, Adobe Spark, j2e a Flipgrid. Mae'r rhan fwyaf o'r cyrsiau yn para oddeutu 40-60 munud. Bydd pob cwrs yn cynnwys cyfres o glipiau fideo, tasgau ymarferol ac yna asesiad ar-lein ar y diwedd fydd yn nodi a ydych chi'n barod i symud ymlaen i'r cwrs nesaf yn y gyfres. Gellir eu defnyddio yn ystod cyfarfodydd staff, nosweithiau gwyll, dyddiau hyfforddiant mewn swydd, cyfnod CPA neu fel y dymunwch.

Am fwy o wybodaeth cliciwch ar y [ddolen hon](#).



Diweddariad SAFMEDS

Mae adnoddau newydd i gefnogi defnyddio strategaeth rifedd SAFMEDS yn yr ysgol ac yn y cartref bellach ar gael i'w lawr lwytho o [Ganolfan Cefnogaeth GwE](#).

Mae cymorth gweithredu ar gael drwy gyswllt fideo i **bob ysgol** yn rhanbarth GwE.

Bydd Kaydee Owen (Swyddog Cefnogi Ymchwil) yn cynnal sesiynau galw heibio (rhwng 9yb a 5yp) ar y dyddiadau hyn:

- 6 Ionawr
- 9 Chwefror
- 11 Mawrth

Trefnwch amser ar-lein ar gyfer cyfarfod un i un : <https://calendly.com/safmeds/drop-in>.

Er mwyn cael unrhyw gymorth ychwanegol tu allan i'r dyddiadau neilltuoel hyn, anfonwch e-bost at kaydee.owen@bangor.ac.uk.

Ar gyfer unrhyw athrawon neu staff cymorth sydd eisiau hyfforddiant SAFMEDS llawn ar-lein, gwylwch y [fideo sydd yn cyflwyno addysgu manwl a strategaeth SAFMEDS](#).

Rhaglen Dysgu Carlam

Peidiwch ag anghofio bod yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch i gael mynediad i'r adnoddau yn adran Sgiliau Carlam Canolfan Cefnogaeth GwE ar gael ar y dudalen gweminarau. Dilynwch y ddolen hon i weld recordiadau am **SAFMEDS, Headsprout, Cyflymu Llythrennedd a sgiliau Rhifedd**, yn ogystal â'r adolygiadau o **becynnau cymorth llythrennedd a rhifedd ar-lein**.

Anfonwch unrhyw ymholiadau i llythrenneddarhifedd@gwegogledd.cymru [Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion.

Hyfforddiant Proffesiynol ar Addysg Ariannol

Gwahoddir pob ymarferydd sydd yn gweithio gyda dysgwyr 9 i 12 oed i gymryd rhan ym mhrosiect Braenaru Cymru. Bwriad y prosiect yw rhoi cyfleoedd i ymarferwyr ddatblygu'n broffesiynol er mwyn cefnogi gwybodaeth, sgiliau ac agweddau eu dysgwyr ym meysydd allweddol addysg ariannol. Ariennir y prosiect gan y Gwasanaeth Arian a Phensiynau ac fe'i gyflwynir gan Young Money gyda chymorth GwE dros dymor y Gwanwyn a'r Haf, 2021. Darperir hyfforddiant, adnoddau a chymorth parhaus yn rhad ac am ddim i bawb a fydd yn cymryd rhan, a thelir costau llanw hefyd.

Am fwy o wybodaeth, cliciwch [yma](#).

Deall y ddarpariaeth ysgol gyfan ar gyfer lles meddyliol i ddisgyblion yng Ngogledd Cymru



Mae Prifysgol Warwick a GwE yn ymchwilio i'r ddarpariaeth ysgol gyfan bresennol ar gyfer lles meddyliol yn ysgolion cynradd ac uwchradd Gogledd Cymru. Mae dulliau ysgol gyfan yn cyfuno'r cwricwlwm, amgylchedd yr ysgol a phartneriaethau tu hwnt i'r ysgol i wella deilliannau disgyblion, tra bod lles meddyliol yn cyfeirio at deimlo'n dda, teimlo fod bywyd yn mynd yn dda, a theimlo eich bod chi'n gallu bwrw ati gyda bywyd o ddydd i ddydd.

Bydd yr ymchwil hwn yn helpu'r rhanbarth i fynd ati i wella'r ddarpariaeth fel rhan o faes lechyd a Lles y Cwricwlwm i Gymru.

Am fwy o wybodaeth, cliciwch [yma](#).

Gwybodaeth a Chanllawiau gan Lywodraeth Cymru

Y Gweinidog Addysg, Kirsty Williams, yn egluro ymhellach y system i ddisodli arholiadau cymwysterau cyffredinol yn 2021

Ym mis Tachwedd, wrth gadarnhau na fyddai unrhyw arholiadau diwedd blwyddyn i ddysgwyr TGAU, Safon UG na Safon Uwch y flwyddyn nesaf, dywedodd y Gweinidog y byddai'n sefydlu Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni i ddiogelu lles dysgwyr, sicrhau tegwch iddynt a'u cefnogi wrth symud ymlaen yn 2021.

Mae'r grŵp, a gadeirir gan Geraint Rees, ac sy'n cynnwys penaethiaid ac arweinwyr colegau a enwebwyd gan gonsortia rhanbarthol, Colegau Cymru ac awdurdodau lleol, wedi cyflwyno ei gynigion i'r Gweinidog bellach.

[Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion.

Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Ymchwil ac Ymholiad Addysgol

CYFRES O SEMINARAU YMCHWIL

Mae'r seminarau canlynol yn cael eu trefnu i helpu i rwydweithio a meithrin capasiti fel rhan o'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Ymchwil ac Ymholiad Addysgol (NSERE). Byddant yn agored i ymchwilwyr, ymarferwyr a'r rhai sy'n llunio polisiau.

Bydd y seminarau yn cael eu cynnal yn fisol (fel rheol ar ddydd Mercher olaf y mis) rhwng 3 a 4.30pm dros TEAMS. Sylwch mai yn Saesneg yn unig y bydd y seminarau yn cael eu cynnal.

Gellir gweld y rhaglen ar gyfer tymhorau'r gwanwyn a'r haf 2021 [yma](#).

Gwybodaeth a Chanllawiau gan Eraill

Explorify - DPP ar-lein, yn rhad ac am ddim, i'ch cefnogi gyda chyflwyno Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Mae *Wellcome* yn gwahodd athrawon i fynychu dau sesiwn DPP ar-lein, yn rhad ac am ddim, a fydd yn eu cefnogi wrth gyflwyno Gwyddoniaeth a Thechnoleg.

Mae *Explorify* yn adnodd digidol am ddim sydd yn llawn gweithgareddau gwyddoniaeth difyr a chreadigol i ysgolion cynradd. Mae'r adnodd yn rhoi cymorth gyda chwestiynu, meddwl a thrafod. [Cliciwch yma](#) am ragor o wybodaeth.

Cwrs Hyfforddiant Plentynod Naturiol [Cyfoeth Naturiol Cymru]

Ym mis Ionawr bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnal cwrs rhithwir yn llawn awgrymiadau a syniadau ar sut i ddefnyddio'r awyr agored i gefnogi datblygiad, dysgu a chwarae plant. Mae'r cwrs wedi'i anelu at ymarferwyr ac athrawon Cyn-ysgol, Meithrin a'r Cyfnod Sylfaen.

Am ragor o fanylion, cliciwch [yma](#).

I gofrestru, ewch i wefan i [Tocyn Cymru](#)

post@gwegogledd.cymru

